

ADRAN ADDYSG PRIFYSGOL RHYDYCHEN

Chwefror 2020
Crynodeb Gweithredol

Saesneg fel Iaith Ychwanegol: Hyfedredd mewn Saesneg, cyflawniad addysgol a chyfradd cynnydd mewn dysgu iaith Saesneg

AWDURON

Yr Athro Steve Strand
Dr Ariel Lindorff



Hawlfraint

Cedwir pob hawl. Ni ellir atgynhychu unrhyw ran o'r cyhoeddiad ar unrhyw ffurf (yn cynnwys ei lungopiò neu ei storio ar unrhyw gyfrwng trwy ddulliau electronig a p'un ai dros dro neu'n achlysurol neu beidio, i ryw ddefnydd arall o'r cyhoeddiad hwn) heb ganiatâd ysgrifenedig perchennog yr hawlfraint. Dylid cyfeirio ceisiadau am ganiatâd ysgrifenedig perchennog yr hawlfraint i atgynhychu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn at y cyhoeddwr.

Hawlfraint © Prifysgol Rhydychen, Unbound Philanthropy, a The Bell Educational Trust Limited (yn gweithredu fel The Bell Foundation)

Mae The Bell Educational Trust Limited yn gwmni elusennol cyfyngedig trwy warant rhif 1048465, a sefydlwyd ar 5 Ebrill 1972, ac yn elusen wedi cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau rhif 311585

The Bell Foundation

Hillscross
Red Cross
Lane
Caergrawnt
CB2 0QU

www.bell-foundation.org.uk

Tîm Ymchwil

Mae **Steve Strand** yn Athro Addysg yn yr Adran Addysg ym Mhrifysgol Rhydychen.

Mae Steve Strand wedi bod yn Athro Addysg ym Mhrifysgol Rhydychen ers Ionawr 2013. Cyn hynny, roedd yn Athro Addysg ym Mhrifysgol Warwick (2005 -2012). Cyn hynny, roedd Steve yn Uwch Ymgynghorwr Asesu yn GL Assessment, cyhoeddwr profion ac asesiadau addysgol blaenllaw'r Deyrnas Unedig (1998-2005) ac yn Bennaeth Ymchwil a Gwerthuso yn Awdurdodau Addysg Lleol Wandsworth a Croydon (1988-1998). Yn y rolau hyn mae wedi bod yn gyfrifol am waith arloesol ar ddadansoddiadau 'gwerth ychwanegol' o berfformiad ysgolion. Mae gan Steve sgiliau arbennig o ran modelu ystadegol a dadansoddiad o setiau data arhydol graddfa fawr yn cynnwys y cyntaf a'r ail o Astudiaethau Arhydol o Bobl Ifanc yn Lloegr (LSYPE) a Chronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion (NPD). Mae'n arwain yr hyb Dulliau Meintiol (QM) yn Adran Addysg Prifysgol Rhydychen. Mae'n awdur dros 100 o erthyglau dyddlyfrau wedi adolygu gan gymheiriaid, penodau mewn llyfrau ac adroddiadau ymchwil. Mae wedi bod yn gynghorydd i'r Adran Addysg (DfE), yn gynghorydd arbenigol i ymchwiliad Pwyllgor Dethol Addysg Tŷ'r Cyffredin i gyflawniad Dosbarth Gweithiol Gwyn ac mae'n aelod o'r panel REF 2021 ar gyfer Addysg. Am ragor o fanylion gweler:

<http://www.education.ox.ac.uk/people/steve-strand/>

Mae **Ariel Lindorff** yn Gymrawd Ymchwil yn yr Adran Addysg ym Mhrifysgol Rhydychen.

Mae ymchwil Ariel yn cynnwys dadansoddi setiau data eilaidd ar raddfa fawr yn defnyddio dulliau meintiol, yn ogystal ag ymagweddau dulliau cymysg i ymchwilio i effeithiolrwydd addysgol a chydardoldeb ar lefelau dosbarth, ysgol a system. Roedd ei DPhil, a gwblhawyd ym Mhrifysgol Rhydychen yn 2016, yn cynnwys astudiaeth dulliau cymysg o rwydweithiau ysgolion mewn ardal ysgolion yn yr Unol Daleithiau, gan ddefnyddio cyfuniad o ddadansoddiad aml-lefel o gyflawniad eilaidd a data gweinyddol a methodoleg astudiaeth achos. Cyn dod i Rydychen, sicrhodd radd Meistr mewn Mathemateg ac Ystadegau Cymhwysol gan Goleg Hunter, Prifysgol Dinas Efrog Newydd. Yn flaenorol fe weithiodd fel athro mathemateg uwchradd yn yr Unol Daleithiau am tua wyth mlynedd ac mae ganddi SAC yn y Deyrnas Unedig. Mae ei sgiliau ymchwil penodol yn cynnwys dadansoddiad eilaidd o setiau data graddfa mawr trawstoriadol ac arhydol, dulliau cymysg o dylunio ymchwil ac ymagweddau penodol i'r pwnc a chyffredinol o arsylwi ymarfer yn y dosbarth. Mae Ariel yn arwain y cwrs MSc Addysg (Dylunio a Methodoleg Ymchwil) yn Adran Addysg Prifysgol Rhydychen ac yn flaenorol wedi bod yn un o gynullyddion y gyfres seminarau Hyb Dulliau Meintiol (QM) yn yr un adran. Am ragor o fanylion gweler: <http://www.education.ox.ac.uk/people/ariel-lindorff/>

Ynghylch The Bell Foundation

Mae The Bell Foundation yn elusen sy'n ceisio trechu eithrio trwy addysg iaith gan weithio gyda phartneriaid ar arloesi, ymchwil, hyfforddiant ac ymyraethau ymarferol. Trwy greu a gweithredu tystiolaeth, ein nod yw newid ymarfer, polisiâu a systemau ar gyfer plant, oedolion a chymunedau yn y Deyrnas Unedig sydd dan anfantais oherwydd iaith.

Mae'r Sefydliad mewn dau faes allweddol:

- **Nod y Rhaglen Saesneg fel iaith Ychwanegol yw gwella canlyniadau addysgol plant gyda Saesneg fel iaith Ychwanegol yn y Deyrnas Unedig er lles y plentyn unigol a chymdeithas yn gyffredinol. Mae'r Sefydliad yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau ar draws y system addysg i ddarparu hyfforddiant ac adnoddau er mwyn meithrin gallu, datblygu a gwerthuso modelau arfer da, ac i ddarparu arweinyddiaeth agweddau.**
- **Mae'r Rhaglen Cyfiawnder Troseddol yn ceisio trechu'r rhwystr iaith i gael mynediad at gyfiawnder ac adsefydlu ar gyfer unigolion mewn cyswllt â'r system cyfiawnder troseddol ble mae Saesneg yn iaith Ychwanegol iddynt. Yn 2017, datblygodd y Sefydliad strategaeth hirdymor ar gyfer ei waith yn y sector, gyda ffocws ar ddioddefwyr a chyflawnwyr troseddau. Mae'r Sefydliad yn gweithio trwy ymyraethau mewn ymchwil, polisi, ymarfer a chefnogi gwasanaeth.**

Ynghylch Unbound Philanthropy

Mae Unbound Philanthropy yn sefydliad llunio grantiau preifat annibynnol sy'n gweithio i sicrhau bod mudwyr a ffoaduriaid yn cael eu trin â pharch ac yn ymgysylltu gyda'u cymunedau newydd. Rydym yn cefnogi ymagweddau pragmatig, arloesol ac ymatebol i fewnfudo ac integreiddio mewnfudwyr yn yr Unol Daleithiau a'r Deyrnas Unedig.

Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar gwestiwn canolog ar gyfer athrawon, datblygwyr cwricwlwm, gweinyddwyr a swyddogion llywodraeth fel ei gilydd: faint o amser mae'n ei gymryd i ddisgyblion Newydd i Saesneg gaffael Hyfedredd mewn Saesneg, ac am ba hyd mae angen cefnogaeth ieithyddol arbennig ar ddisgyblion? Mae'r astudiaeth hon yn adrodd ar 5,453 o ddisgyblion Saesneg fel Iaith Ychwanegol a ymunodd â dosbarth Derbyn yn 4/5 oed yng Nghymru rhwng 2009 a 2011. Fe wnaethom olrhain y disgyblion hyn yn ystod y chwe blynedd ddilynol yn yr ysgol gynradd. Pob Ionawr, roedd Hyfedredd Saesneg (PIE) y disgyblion yn cael ei gofnodi ar raddfa pum pwynt, yn amrywio o A (Newydd i Saesneg) i B (Caffael Cynnar), C (Datblygu Cymhwyster) i D (Cymwys) ac E (Rhugl).

Gofynnem faint o amser mae'n ei gymryd i fwyafrif (o leiaf 50%) o'r disgyblion wneud unrhyw drosiant penodol? Ar gyfer disgyblion a gyrhaeddodd y dosbarth Derbyn ar lefel A (Newydd i Saesneg) roedd dros hanner (59%) wedi trosi i lefel B (Caffael Cynnar) erbyn Bl2, gan gymryd 2.4 mlynedd ar gyfartaledd (SD=1.4); ac roedd dros hanner (51%) wedi trosi i lefel C (Datblygu Cymhwyster) erbyn Bl4, gan gymryd 3.7 mlynedd ar gyfartaledd (SD=1.6). Fodd bynnag, dim ond traean (31%) oedd wedi trosi i lefel D/E (Cymwys/Rhugl) erbyn diwedd Bl6, gyda chyfartaledd o 4.6 i'r rhai a wnaeth y trosiant hwn o fewn y cyfnod chwe blynedd dan sylw.

Ar y cyfan, erbyn diwedd Bl6, roedd bron i bob un (96%) wedi trosi i B (Caffael Cynnar), a dros dri chwarter (78%) wedi trosi i C (Datblygu Cymhwyster) ond dim ond tua thraean (31%) wedi trosi i D/E (Cymwys neu uwch). Mae hyn yn dynodi y bydd y mwyafrif o ddisgyblion yn dechrau dosbarth Derbyn yn Newydd i Saesneg yn cymryd **mwyafrif na chwe blynedd** i gael eu graddio fel Cymwys/Rhugl. Mae hyn yn gyffredinol yn gymaradwy i ymchwil diweddar a methodolegol gryf o'r Unol Daleithiau sy'n amcangyfrif bod angen 4-8 mlynedd i gaffael hyfedredd Saesneg academaidd.

Gall fod heriau atodol ar gyfer disgyblion nad ydynt yn cychwyn gyda chohort llawn yn y dosbarth Derbyn, ond yn ymuno â'r ysgol yn ddiweddarach. Felly fe edrychom hefyd ar 1,839 o ddisgyblion eraill a gofnodwyd fel Newydd i Saesneg a ymunodd â'u hysgol ym M1 i Bl5, a'u dilyn am o leiaf chwe blynedd arall. Roedd yr amcangyfrifon ar gyfer y disgyblion hyn i raddau helaeth yn gyfatebol i'r rhai a adroddwyd ar gyfer disgyblion yn cychwyn yn Derbyn.

Mae gan hyn oblygiadau arwyddocaol ar gyfer y fformiwla ariannu disgyblion cenedlaethol. Er enghraifft, yn Lloegr ar hyn o bryd mae'r fformiwla genedlaethol yn darparu cyllid wedi'i dargedu i ddisgyblion Saesneg fel Iaith Ychwanegol am gyfnod o dair blynedd wedi iddynt ymuno â'r ysgol. Efallai fod hyn yn briodol parthed sicrhau hyfedredd llafar, ond mae'n llai na hanner yr isafswm amser a awgrymir gan y data cyfredol ar gyfer sicrhau hyfedredd academaidd.

Mae'r adroddiad hefyd yn delio â nifer o gasgliadau pellach yn cynnwys materion o ran cysondeb dehongli'r dynodiad Cymwys/Rhugl, ffactorau demograffig sy'n gysylltiedig gyda chynnydd a'r berthynas rhwng PIE a chyflawniad mewn Saesneg a mathemateg yn 7, 11, 14 ac 16 oed.

Crynodeb gweithredol

Cefndir

Mae'r adroddiad hwn yndrydydd un mewn cyfres yn archwilio'r berthynas rhwng Saesneg fel iaith Ychwanegol (EAL), Hyfedredd mewn Saesneg (PIE) a chyflawniad addysgol. Mae'r ymchwil wedi ei ariannu gan The Bell Foundation ac Unbound Philanthropy. Ceir crynodeb o brif gasgliadau'r ddau adroddiad blaenorol isod.

Strand, Malmberg a Hall (2015)

Defnyddiodd yr adroddiad Gronfa Data Genedlaethol y Disgyblion (NPD) yn Lloegr i ddadansoddi tueddiadau yn y nifer a dosbarthiad disgyblion gyda Saesneg fel iaith Ychwanegol, a'r berthynas rhwng Saesneg fel iaith Ychwanegol a chyflawniad addysgol yn 5, 7, 11 ac 16 oed yn defnyddio data cenedlaethol 2013 ar gyfer pob disgybl. Y canlyniadau allweddol oedd:

- Fe wnaeth y boblogaeth Saesneg fel iaith Ychwanegol yn ysgolion Lloegr fwy na dyblu o 7.6% yn 1997 i 16.2% yn 2013, gyda chyfanswm o ychydig dros un filiwn o ddisgyblion. Yn 2019 mae'r ffigurau hyd yn oed yn uwch nawr mae 1.56 miliwn o ddisgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol, sy'n cyfateb i ychydig dan un mewn pump (19.6%) o'r holl ddisgyblion 5-16 oed. Tra bod gan un chwarter ysgolion <1% o ddisgyblion wedi eu cofnodi fel Saesneg fel iaith Ychwanegol, mewn oddeutu 1 o bob 11 o ysgolion roedd disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol yn cyfateb i >50% o'r gofrestr disgyblion, felly roedd angen yn grynodeg iawn mewn rhai ysgolion.
- Ar y cyfan, mae disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol yn dal i fyny gyda'u cyfoedion Saesneg iaith Gyntaf (FLE) o ran cyflawniad addysgol erbyn 16 oed. Yn 5 oed, dim ond 44% o ddisgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol oedd wedi cyflawni Lefel Dda o Ddatblygiad o gymharu â 54% o ddisgyblion eraill. Erbyn 16 oed, roedd y bwlch yma wedi lleihau'n sylweddol gyda 58.3% o ddisgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol yn cyflawni pump TGAU A*- C yn cynnwys Saesneg a mathemateg o gymharu â 60.9% o ddisgyblion eraill, a doedd yna ddim bwlch Saesneg fel iaith Ychwanegol o gwbl yn y sgôr pwyntiau TGAU 8 Gorau cyfartalog.
- Roedd yna amrywiaeth enfawr yn y canlyniadau addysgol a gyflawnwyd gan ddisgyblion wedi eu dosbarthu fel Saesneg fel iaith Ychwanegol. Yn ogystal â ffactorau risg cyffredinol i ddisgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol a Saesneg iaith Gyntaf, fel Anghenion Addysgol Arbennig, amddifadedd economaidd-gymdeithasol teulu a chymdogaeth, rhyw a thymor geni, roedd yna ffactorau risg eraill ar gyfer cyflawniad isel oedd yn arbennig o gryf ymysg disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol: ieithoedd cyntaf penodol o fewn y grwpiau ethnig Du Affricanaidd a Gwyn Arall, absenoldeb sgôr cyrhaeddiad blaenorol o ddechrau'r Cyfnod Allweddol, a mudoledd disgyblion rhwng ysgolion. Mae'r rhain i gyd yn ddirprwyon ar gyfer cyrraedd o dramor.
- Yn allweddol, mae'r adroddiad yn casglu fod y diffiniad o Saesneg fel iaith Ychwanegol a ddefnyddir yn y NPD yn gyfyngedig oherwydd *nid yw'n rhoi unrhyw awgrym o hyfedredd disgybl yn Saesneg*¹. Felly, mae'r grŵp Saesneg fel iaith Ychwanegol yn cynnwys (i) myfyrwyr lleiafrif ethnig ail neu drydedd genhedlaeth a allai fod wedi eu hamlygu i iaith ar wahân i Saesneg yn rhan o'u treftadaeth ddiwylliannol, ond sy'n defnyddio Saesneg fel eu hiaith pob dydd ac yn gwbl rugl ynddi, a (ii) mewnfudwyr newydd yn cyrraedd Lloegr nad ydynt yn siarad unrhyw Saesneg o gwbl, ac a allai fod â lefelau amrywiol o lythrennedd yn eu gwlad tarddiad blaenorol. Mae'r adroddiad yn casglu fod Hyfedredd mewn Saesneg yn ffactor mawr yn dylanwadu ar gyflawniad addysgol a graddfa'r gefnogaeth fydd myfyriwr Saesneg fel iaith Ychwanegol ei hangen, a diffyg Hyfedredd mewn Saesneg yn gysylltiedig gyda rhai'n cyrraedd o dramor sydd wedi ei ddirprwyo gan y ffactorau risg a nodwyd yn y rhestr uchod.

Prif argymhelliad yr adroddiad oedd y dylai'r Adran Addysg (DfE) yn Lloegr gyflwyno mesur o Hyfedredd mewn Saesneg (PIE) disgyblion er mwyn i ysgolion allu asesu hyn o fewn fframwaith cyffredin i nodi a delio ag anghenion disgyblion. Wedi ymgynghori fe wnaeth y DfE gyflwyno mesur o'r fath, gan fabwysiadu'r mesur a ddefnyddiwyd mewn ysgolion yng Nghymru ers 2009², gyda'r casgliad cenedlaethol cyntaf o Hyfedredd mewn Saesneg ar gyfer pob disgybl Saesneg fel iaith Ychwanegol yn Lloegr yn Ionawr 2017³.

1 "Dylid cofnodi iaith gyntaf ar wahân i Saesneg pan oedd plentyn wedi ei amlygu i'r iaith yn ystod datblygiad cynnar ac yn parhau i gael ei amlygu i'r iaith hon yn y cartref neu'r gymuned. Os oedd plentyn wedi ei amlygu i fwy nag un iaith (a allai gynnwys Saesneg) yn ystod datblygiad cynnar, dylid cofnodi'r iaith ar wahân i Saesneg, waeth beth yw hyfedredd y plentyn mewn Saesneg". (DCSF, 2006, p10).

2 Graddfa pum lefel Hyfedredd mewn Saesneg (PIE): A="Newydd i Saesneg", B="Caffael Cynnar", C="Datblygu Cymhwyster", D="Cymwys", E="Rhuigl". Gweler Atodiad B am ddisgrifiwr manwl o bob categori.

3 Defnyddiwyd y mesur PIE yng nghyfrifiadau ysgolion Ionawr 2017 a 2018, ond fe derfynwyd casglu PIE gan y DfE wedi hynny.

Strand a Hessel (2018)

Tra bod y data Hyfedredd mewn Saesneg yn cael ei gasglu gan y DfE, nid oedd yn cael ei gynnwys yn yr NPD ac felly nid oedd ar gael ar gyfer ymchwil. Ni chyflawnwyd unrhyw ddadansoddiad o'r data gan y DfE ychwaith, ar wahân i gynhyrchu un tabl unigol (DfE, 2017). Felly, fe weithiom gyda chydweithwyr mewn Awdurdodau Lleol (All) ac ysgolion i gasglu sampl mawr a chynrychioladol cenedlaethol o ddata. Roedd yr ymchwil a gasglwyd yn cofnodi data ar lefel disgybl yn ddiennw o ddata Cyfrifiad Ysgolion Ionawr 2017 ar gyfer dros 140,000 o ddisgyblion yn mynychu 1,569 o ysgolion mewn Awdurdodau Lleol ledled Lloegr. Roedd hefyd yn casglu a pharu'r data yma i ganlyniadau asesiad cenedlaethol y disgyblion yn 5, 7, 11 ac 16 oed. Y prif ganlyniadau oedd:

- Roedd disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol yn amrywio'n helaeth o ran graddfa eu Hyfedredd mewn Saesneg. Yng nghyd-destun ysgolion prif ffrwd yn Lloegr, nid oedd hyn yn fân arsylwad. Mae dysgu yn cael ei gyflawni bron yn gyfan gwbl trwy gyfrwng Saesneg, boed hynny'n destunau, deunyddiau fideo neu sain, neu mewn trafodaethau dosbarth. Mae grŵp o ddisgyblion sydd dim ond yn gallu cael mynediad cyfyngedig i'r wybodaeth yma hefyd yn llai tebygol o gyflawni i'w llawn botensial.
- Yr elfen bwysicaf o ran graddfa hyfedredd y disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol mewn Saesneg oedd eu hoedran, yn hytrach nag ethnigrwydd, rhyw neu gymhwyster ar gyfer prydau ysgol am ddim. Ar ddiwedd y dosbarth Derbyn, mae dros hanner (55%) disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol yn caffael Hyfedredd mewn Saesneg (wedi ei raddio fel Newydd i Saesneg, Caffael Cynnar neu Ddatblygu Cymhwyster). Ar ddiwedd CA1, mae bron i hanner (49%) disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol yn caffael hyfedredd. Ar ddiwedd CA2, mae hyn yn gostwng i dan chwarter (23%) ac erbyn CA4 dim ond un mewn chwech (15%). Gan edrych ar ben arall y sbectrwm, erbyn CA4 mae'r mwyafrif helaeth o ddisgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol (85%) yn Gymwys neu'n Rhugl yn y Saesneg, o gymharu â 30% o ddisgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol yn y dosbarth Derbyn. Felly, mae cefnogaeth iaith yn arbennig o bwysig yn ystod blynyddoedd cynnar addysg gynradd er mwyn caniatáu i ddisgyblion gael mynediad i'r cwricwlwm cyn gynted â phosibl.
- Mewn blynyddoedd diweddarach, efallai y bydd angen cefnogaeth i lai o ddisgyblion, ond mael ei hangen o hyd, yn arbennig ar gyfer disgyblion sy'n newydd i'r wlad. Os mai dyhead y system ysgolion yw darparu mynediad llawn i'r cwricwlwm (Saesneg) ar gyfer pob disgybl, bydd angen cefnogaeth ieithyddol o hyd ar gyfer un bob chwe disgybl Saesneg fel iaith Ychwanegol yn ystod CA4, ble barnwyd fod 15% yn llai na 'Chymwys' o ran hyfedredd.
- Ar draws pob oed 5-16 a phob pwnc, roedd disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol gyda gwahanol lefelau o Hyfedredd mewn Saesneg yn amrywio'n fawr yn eu cyflawniad. Yn wir, mae PIE yn ganolog i ddeall cyflawniad a lefelau angen ymysg disgyblion gyda Saesneg fel iaith Ychwanegol. Gallai Hyfedredd mewn Saesneg esbonio 22% o'r amrywiad yng nghyflawniad disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol, o gymharu â'r 3-4% arferol y gellir esbonio'n ystadedog yn defnyddio rhyw, statws Prydau Ysgol Am Ddim ac ethnigrwydd.
- Tra bod disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol Newydd i Saesneg neu ar y cam Caffael Cynnar yn sgorio'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, roedd y rhai oedd yn Datblygu Cymhwyster yn agos iawn i'r cyfartaledd cenedlaethol a'r rhai oedd yn Gymwys neu'n Rhugl yn sgorio'n sylweddol uwch na siaradwyr uniaith Saesneg. Felly, nid yw bod yn ddwyieithog yn rhwystr i ddysgu. Beth all fod yn rhwystr i gyflawniad yw diffyg hyfedredd yn iaith y dysgu yn yr ysgol. Mae angen cefnogi disgyblion fel y gallant gaffael yr hyfedredd sydd ei angen arnynt i lwyddo.

Argymhellodd yr adroddiad y dylai'r DfE gynnwys data ar PIE yn yr NPD fel y byddai ar gael i ddibenion ymchwil, ac y dylai adfer casglu PIE yn y Cyfrifiad Ysgolion. Er nad oedd y DfE bellach yn gofyn i ysgolion asesu Hyfedredd mewn Saesneg plentyn wedi 2018, roedd yr adroddiad yn annog ysgolion yn gryf i barhau i gofnodi PIE i nodi anghenion a thargedau cefnogaeth. Cafodd y safbwynt yma ei gefnogi'n gryf gan y Gymdeithas Genedlaethol dros Ddatblygiad Iaith yn y Cwricwlwm (NALDIC), y gymdeithas pwnc cenedlaethol ar gyfer Saesneg fel iaith Ychwanegol⁴.

Yr Astudiaeth Gyfredol

Mae'r adroddiad cyfredol yn adeiladu ar ac yn ehangu'r gwaith uchod. Yn benodol, mae'n canolbwyntio ar gwestiwn canolog ar gyfer athrawon, datblygwyr cwricwlwm, gweinyddwyr a swyddogion llywodraeth fel ei gilydd: faint o amser mae'n ei gymryd i ddisgyblion Newydd i Saesneg gaffael Hyfedredd mewn Saesneg, ac am ba hyd mae angen cefnogaeth ieithyddol arbennig ar ddisgyblion? Awgrymodd adolygiad o'r llenyddiaeth sydd ar gael (gweler Adolygiad Llenyddiaeth ar ddechrau Adran 3 yn y prif adroddiad) tra bod ffigwr o 4-7 mlynedd yn cael ei nodi'n gyffredinol, yn aml iawn mae'r dystiolaeth ymchwil yn hen iawn ac yn amheus o ran methodoleg. Hefyd dim ond un astudiaeth oedd wedi edrych ar y cwestiwn hwn yn y Deyrnas Unedig (Demie, 2013).

Mae'r adroddiad yn cyflwyno dadansoddiad disgrifiadol trawstoriadol a disgrifiadol arhydol o Hyfedredd mewn Saesneg (PIE) disgyblion a'r amser i symud ymlaen trwy lefelau o PIE yn seiliedig ar ddata disgyblion cenedlaethol Cymru. Ers 2009, mae ysgolion yng Nghymru wedi defnyddio graddfa pum pwynt o A (Newydd i Saesneg) i E (Rhugl) i raddio PIE disgyblion gyda Saesneg fel iaith Ychwanegol⁵, felly roeddem yn gallu olrhain cynnydd disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol trwy'r gwahanol lefelau PIE dros gyfnod o amser. Mae'r adroddiad hefyd yn dyblygu rhywfaint o'r ymchwil blaenorol ar y berthynas rhwng PIE, demograffeg disgyblion a chyflawniad addysgol yn 7, 11, 14 ac 16 oed mewn lleoliad cenedlaethol pellach (Cymru). Mae hefyd yn ehangu ar y gwaith i ystyried nid yn unig PIE ar unrhyw adeg benodol, ond hefyd sut y gellir cysylltu'r gyfradd ble mae disgyblion yn symud trwy lefelau hyfedredd gyda chyflawniad.

Cwestiynau ymchwil

Nod y dadansoddiad yn yr adroddiad hwn yw ateb y cwestiwn cyffredinol canlynol:

Beth allwn ni ddysgu o ddata cenedlaethol disgyblion Cymru ynghylch faint o amser mae'n cymryd i drosi rhwng lefelau Hyfedredd mewn Saesneg?

At hyn, gallwch nodi is-gwestiynau pellach:

- (a) A yw llwybrau mewn hyfedredd Saesneg dros gyfnod o amser yn amrywio rhwng disgyblion o gefndiroedd gyda nodweddion gwahanol (e.e. oed, rhyw, grŵp ethnig, hawl i Brydau Ysgol am Ddim neu lefel Angen Addysgol Arbennig)?
- (b) A yw llwybrau mewn hyfedredd Saesneg dros amser yn gysylltiedig gyda chyflawniad addysgol? A oes gan ddisgyblion sy'n symud trwy lefelau hyfedredd yn gynt lefelau uwch o gyflawniad yn hwyrach yn yr ysgol na disgyblion sy'n symud ymlaen yn arafach?
- (c) A yw llwybrau mewn hyfedredd Saesneg dros amser yn wahanol rhwng disgyblion sy'n cyrraedd yn ystod dosbarth derbyn, a'r rhai sy'n cyrraedd yr ysgol yn hwyrach?
- (d) A yw llwybrau mewn hyfedredd Saesneg yn amrywio yn ôl ysgol ac yn ôl Awdurdodau Lleol (ALL)?
- (e) A oes unrhyw amrywiolion cyfansoddiadol neu gyd-destunol ALL yn gysylltiedig ag amrywiaethau yn llwybrau ysgol neu ALL o ran hyfedredd Saesneg?

5 Gweler Atodiad B ar gyfer disgrifyddion. Gellir gweld y canllaw ar gyfer proses graddio ac adrodd ar PIE disgyblion yng Nghymru ar https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/e1/eb/6b/26/46e949f294825cb0ce41f1c3/Needsassessmentsurveyguide_4.pdf.

Setiau data

Darparwyd data o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) Cymru gan Lywodraeth Cymru. Mae'r set data yn ddelfrydol oherwydd mae PIE wedi ei gofnodi ar yr holl ddisgyblion yn flynyddol ers 2009, gan roi set data arhydol helaeth. Yn ogystal, darparodd Llywodraeth Cymru nodweddion cefndir eraill disgyblion (e.e. rhyw, oed, ethnigrwydd, hawl i brydau ysgol am ddim) a data cyflawniad addysgol yn 7, 11, 14 ac 16 oed. Mae ein set data yn cynnwys cofnodion ar gyfer yr holl ddisgyblion yng Nghymru rhwng Cyfrifiadau Ysgolion Ionawr 2009 a 2017 yn gynhwysol (er bod rhai problemau gyda data coll ar gyfer y grŵp blwyddyn Derbyn yn 2017 a drafodir isod). Penderfynom ganolbwyntio ar y blynyddoedd o addysg orfodol, o Derbyn (4/5 oed) hyd at Flwyddyn 11 (15/16 oed), a thrwy reidrwydd rydym wedi cyfyngu ein dadansoddiad i ddisgyblion mewn ysgolion prif ffrwd gan nad oes rhaid i ysgolion arbennig gofnodi PIE disgyblion. Rhoddodd hyn gyfanswm o 3,528,064 o gofnodion disgyblion yn cynnwys y data o'r naw mlynedd.

Cymaroldeb â Lloegr

Dim ond ar gyfer disgyblion ble nad yw eu hiaith gyntaf yn Gymraeg neu Saesneg y cesglir data Hyfedredd mewn Saesneg, felly nid yw siaradwyr Cymraeg yn cael eu hystyried i fod â Saesneg fel iaith Ychwanegol. Mae'r graddiadau yn benodol ar gyfer Hyfedredd mewn Saesneg, nid hyfedredd mewn Cymraeg, ac yn wir dyma'r un raddfa ag a defnyddiwyd am gyfnod byr yn Lloegr yn 2017 a 2018. Felly mae'r grŵp Saesneg fel iaith Ychwanegol yng Nghymru yn gymaradwy gyda data NPD Lloegr. Rydym wedi defnyddio'r llaw-fer 'Siaradwyr Cymraeg/Saesneg (C/S)' ar gyfer y grŵp o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg a/neu Saesneg, i'w cyferbynnu â'r grŵp Saesneg fel iaith Ychwanegol.

Un ffactor a all gymhlethu yng Nghymru yw'r ysgolion hynny ble mae Cymraeg yn iaith dysgu. Yn yr ysgolion hyn, ni fyddai Hyfedredd mewn Saesneg yn bryder difrifol, gan mai Cymraeg fyddai'r iaith fyddai angen i ddisgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol ennill hyfedredd ynddi er mwyn cael mynediad i'r cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'r gyfran o ddisgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn isel iawn. Ar gyfer disgyblion Cymraeg/Saesneg, yng nghynradd mae 22.1% ac yn uwchradd mae 8.4% yn cael eu haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, ymysg disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol, yng nghynradd dim ond 2.5% ac yn uwchradd dim ond 0.3% sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg (Gweler Atodiad A). Neu i esbonio fel arall, mae'r gyfradd gymedrig o ddisgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (6.6% a 7.6% yng nghynradd ac uwchradd yn y drefn honno) yn llawer mwy nag ysgolion cyfrwng Cymraeg (0.8% a 0.2% yn y drefn honno).

Fe ymddengys fod yna ddiidoli systematig o ddisgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol i ysgolion cyfrwng Saesneg yn hytrach nag ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac felly mae ein canlyniadau yn annhebygol iawn o fod wedi eu heffeithio gan y nifer fechan o ddisgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Fe wnaethom hefyd edrych ar ganlyniadau amser i gynnydd allweddol gan eithrio ysgolion cyfrwng Cymraeg ac roeddynt yn gwrthsefyll yr eithriad (gweler Atodiad J). Felly rydym yn fodlon fod y canlyniadau yn un mor berthnasol i Loegr ag y maent i Gymru.

Set data trawstoriadol

Roedd y nifer o ddisgyblion yn Derbyn yr oedd gennym gofnodion ar eu cyfer yn 2017 yn isel iawn (N=5,647 o gymharu â N=31,539 yn 2016). Ni allwn bennu'r rheswm dros hyn yn seiliedig ar y data sydd ar gael. Nid yw hyn yn broblem ar gyfer ein dadansoddiadau arhydol oedd yn canolbwyntio ar ddisgyblion yn mynd i Derbyn yn 2009-2011 a oedd yn cyrraedd diwedd ysgol gynradd erbyn 2017. Fodd bynnag, oherwydd hyn fe ddefnyddiom ddata 2016 yn hytrach na 2017 yn ein dadansoddiad trawstoriadol. Fe wnaethom ddadansoddi data ar gyfer 389,775 o ddisgyblion mewn 1,310 o ysgolion prif ffrwd cynradd a 205 uwchradd yn Derbyn hyd at Bl11, ar draws y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru. Rydym yn dadansoddi'r data PIE parthed amrywiaeth o ffactorau cefndir disgyblion (grŵp blwyddyn, rhyw, grŵp ethnig, hawl i brydau ysgol am ddim addysgol, lefel AAA), ffactorau ysgol (math, cyfrwng Cymraeg/Saesneg, maint) ac i gyflawniad ar 7, 11, 14 ac 16 oed.

Setiau data arhydol

Ar gyfer ein dadansoddiad arhydol, gellid olrhain tri cohort o ddisgyblion o Derbyn hyd at ddiwedd Bl6, yn benodol y cohortau o ddisgyblion a ddechreuodd yn Derbyn yn 2009, 2010 a 2011 ac a gwblhaodd Bl6 yn 2015, 2016 a 2017 yn y drefn honno. Oherwydd bod y nifer o ddisgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol yn gymharol fach o fewn pob cohort, fe wnaethom gyfuno'r tri i un sampl dadansoddol unigol i gyflawni maint sampl mwy. Trwy ddethol y disgyblion oedd â chofnodion dilys trwy gydol ysgol gynradd, cafwyd sampl o 90,476 o ddisgyblion, gyda 5,453 ohonynt (6.0%) wedi eu cofnodi yn Saesneg fel iaith Ychwanegol yn Derbyn. Fe wnaethom olrhain mesurau amser i gynnydd (mewn blynyddoedd) o bob lefel PIE yn Derbyn, er mwyn pennu cyfartaledd y nifer o flynyddoedd i drosiant, er enghraifft, o lefel A i lefel B, o lefel B i lefel C, ac yn y blaen.

Gallai disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol sy'n ymuno â'r ysgol mewn blynyddoedd diweddarach fod yn wahanol mewn ffyrdd pwysig i'r rhai sy'n ymuno yn Derbyn; efallai hefyd nad ydynt wedi cael y manteision o ymuno yn rhan o gohort cyfan. Ar gyfer cymhariaeth, rydym felly wedi creu set data gyfatebol bellach ar gyfer disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol a ymunodd wedi Derbyn. Roedd yna 1,839 disgybl arall gyda Saesneg fel iaith Ychwanegol yn cychwyn ar lefel A (Newydd i Saesneg) ym Mlwyddyn 1 i Flwyddyn 5, a gydag o leiaf gwerth chwe blynedd arall o ddata PIE dilys. Fe gyfrifom fesurau tebyg o amser i drosi rhwng lefelau PIE ar gyfer y disgyblion hyn i weld os oedd yr amcangyfrifon yn gyson rhwng y rhai yn cychwyn Derbyn a rhai oedd yn cyrraedd yr ysgol yn hwyrach.

Canlyniadau

Hyfedredd mewn Saesneg a nodweddion disgyblion yn 2016

Roedd y canran o ddisgyblion a gofnodwyd fel Saesneg fel iaith Ychwanegol yn gymharol gyson ar draws y blynyddoedd, ar tua 6%-8% mewn grŵp blwyddyn, yn gyffredinol ychydig yn uwch yn yr ysgolion cynradd nag yn yr ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, roedd newidiadau arwyddocaol mewn lefelau PIE ar draws grwpiau oedran. Gostyngodd y gyfran o ddisgyblion ar lefel A (Newydd i Saesneg) o 56% yn Derbyn i ychydig dros 2% yn Bl11. Felly hefyd, fe gynyddodd y gyfran o ddisgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol a raddiwyd fel lefelau D (Cymwys) neu E (Rhugl) o 7.5% yn Derbyn i 65% yn Bl11.

Mae hyn yn ddata trawstoriadol, ond rydym yn nodi tueddiadau tebyg yn ein data arhydol isod.

Ychydig iawn o berthynas oedd rhwng PIE a ffactorau demograffig eraill disgyblion. Heb fawr o syndod, roedd cyfraddau gyda Saesneg fel iaith Ychwanegol yn ddiwbys ymysg disgyblion Gwyn Prydeinig (0.3%) a <10% ymysg disgyblion Du Caribiaidd a Gwyn a Du Caribiaidd Cymysg, ond dros 80% ymysg Gwyn Arall, Asiaidd Arall, Indiaidd, Pacistanaidd, Bangladeshaidd, Du Affricanaidd, Tsieineaidd ac Unrhyw grwpiau ethnig eraill. Roedd gan rai grwpiau ethnig (yn arbennig Roma a Gwyn Arall) gyfraddau uchel iawn (>50%) ar y camau Newydd i Saesneg neu Gaffael Cynnar. Doedd yna ddim perthynas gref rhwng rhyw na phrydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, roedd dipyn llai o ddisgyblion gydag AAA wedi eu cofnodi fel Saesneg fel iaith Ychwanegol (6%) na disgyblion heb AAA (7%), er bod disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol gydag AAA yn llawer mwy tebygol o fod yn y camau cynharach o gaffael o gymharu â disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol heb AAA.

Hyfedredd mewn Saesneg a chyflawniad disgyblion yn 2016

Roedd y berthynas rhwng cyflawniad disgyblion a PIE yn amrywio rhywfaint yn ôl Cyfnod Allweddol. Roedd disgyblion oedd yn siarad Cymraeg/Saesneg yn perfformio'n well na disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol oedd ar y cam Newydd i Saesneg neu Gaffael Cynnar ar bob Cyfnod Allweddol. Fodd bynnag, roedd yna anghysondeb o ran canlyniadau ar gyfer disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol a raddiwyd ar lefel C (Datblygu Cymhwyster) oedd ar gyfartaledd mewn gwirionedd yn cyflawni'n uwch na siaradwyr Cymraeg/Saesneg yn 7 oed, yn cynnwys yn Saesneg, a mathemateg a gwyddoniaeth yn ystod CA2, ond yn is na siaradwyr Cymraeg/Saesneg erbyn CA3 a CA4. Roedd disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol wedi eu graddio fel Cymwys neu Rugl yn gyson yn perfformio'n well na siaradwyr Cymraeg/Saesneg ar bob cyfnod allweddol. Fodd bynnag, nid oedd y gwahaniaethau rhwng disgyblion a raddiwyd fel Cymwys a Rhugl bob amser yn y cyfeiriad a ragwelwyd. Er enghraifft, yn 7 oed roedd gan y rhai a raddiwyd yn Gymwys ar gyfartaledd lefelau uwch o gyflawniad na'r rhai a raddiwyd yn Rhugl, a doedd yna ddim gwahaniaethau mewn cyflawniad rhwng y ddau grŵp erbyn CA2. Nid tan CA3 a CA4 oedd disgyblion a raddiwyd fel Rhugl yn gyson yn cyflawni'n uwch na'r rhai a raddiwyd fel Cymwys. Mae hyn yn awgrymu y gall fod cwestiwn o ddilysrwydd yn yr asesiad o PIE ar y lefelau hynny, mater y byddwn yn rhoi sylw pellach iddo isod wrth archwilio'r amser i drosi rhwng lefelau PIE.

Amrywiaethau ysgolion ac ALL mewn PIE yn 2016

Roedd amrywiaeth arwyddocaol rhwng ysgolion ac Awdurdodau Lleol (ALLau) yn y gyfran o ddisgyblion gyda Saesneg fel iaith Ychwanegol ac yn y gyfran o ddisgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol yn dal i Ddatblygu Cymhwyster mewn Saesneg h.y. ar lefelau PIE A-C. Ar gyfer ALLau, roedd y gyfran o ddisgyblion a gofnodwyd fel Saesneg fel iaith Ychwanegol yn amrywio o 0.8% ar Ynys Môn a <5% mewn 17 o'r 22 ALL, hyd at 10% yn Abertawe, 17% yng Nghasnewydd a 23% yng Nghaerdydd. Roedd hefyd amrywiaeth arwyddocaol rhwng ysgolion. Mae gan yr ysgol gyfartalog 5% o ddisgyblion gyda Saesneg fel iaith Ychwanegol, ond roedd y dosbarthiad yn anghytbwys iawn gyda nifer o ysgolion â 0% o ddisgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol, a lleiafrif bychan gyda >50%.

Roedd gan ysgolion gwirfoddol gyfrannau sylweddol uwch o ddisgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol a disgyblion ar lefelau PIE A-C nag ysgolion Cymuned neu Sefydledig⁶. Roedd hyn hefyd yn wir ar gyfer ysgolion mwy (y rhai gyda niferoedd mwy o ddisgyblion) o gymharu ag ysgolion llai. Yn ddi-ddorol, roedd gan ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg gyfrannau llawer uwch o ddisgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol (7.6%) a disgyblion ar lefelau PIE A-C (6.0%) nag ysgolion cyfrwng Cymraeg (0.8% a 0.5% yn y drefn honno). Roedd yr un patrwm o wahaniaethau yn wir ar gyfer ysgolion uwchradd. Nid yw hyn yn ymddangos i adlewyrchu amrywiaethau demograffig rhwng ALLau oherwydd hyd yn oed o fewn Awdurdodau roedd gwahaniaethau mawr. Er enghraifft, yng Nghaerdydd, roedd 27.8% o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn cael eu cofnodi fel Saesneg fel iaith Ychwanegol o gymharu â 6.7% o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal, roedd llai na 2% o'r holl ddisgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol wedi eu cofrestru mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, a llai na 5% mewn ysgolion dwyieithog, yn 2016 (gweler Atodiad A, Tabl A1). Gallai hyn ddynodi effeithiau dethol, gyda theuluoedd a disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol yn dewis ysgolion cyfrwng Saesneg yn hytrach na chyfrwng Cymraeg. Ni wyddom a yw defnydd o Gymraeg ar gyfer dysgu, yn ogystal ag ar gyfer busnes dydd i ddydd yr ysgol a chyfathrebu gyda rhieni, mewn unrhyw fodd yn dylanwadu'n uniongyrchol ar ymagwedd yr ysgol i nodi hyfedredd Saesneg.

Amser cynnydd o ran Hyfedredd mewn Saesneg

Yn ogystal â'r patrymau cyflawni a nodwyd uchod, roedd hefyd anghysondeb yn y modd y cofnodwyd y ddwy lefel uchaf o PIE (Cymwys a Rhugl) dros gyfnod o amser. Roedd y nifer o ddisgyblion a gofnodwyd fel Rhugl yn llawer uwch na'r niferoedd a gofnodwyd fel Cymwys tan 2014, ac wedi hynny ymddengys fod y nifer o ddisgyblion yn y categorïau hyn yn gyffredinol debyg neu wedi gwyrddroi.

O gyfuno gyda'r proffiliau cyflawniad gwrth-reddfol ar gyfer 7 oed ac 11 oed, roedd cwestiynau ynghylch dilysrwydd y gwahaniaeth Cymwys/Rhugl yn y modd roedd wedi ei asesu neu gofnodi; awgryma ymchwil blaenorol nad oes digon o sylw'n cael ei roi i gynnydd disgyblion tu hwnt i Ddatblygu Cymhwyster yn y system addysg Gymreig (Cyfarwyddiaeth Cymorth i Ddysgwyr, 2015). Felly, nid ydym yn rhoi llawer o bwyslais ar y trosiant rhwng Cymwys a Rhugl, yn hytrach yn ystyried y trosiant i "Gymwys neu uwch" lle bo'n briodol⁷.

Dengys ein dadansoddiadau arhydol fod amrywiaeth sylweddol rhwng disgyblion o ran yr amser a gymerodd i wneud trosiannau, ac yn wir a oeddynt yn trosi o gwbl, rhwng lefelau PIE. Rydym yn adrodd ar ddau fetrig isod. Yn gyntaf, i ystyried y ffaith nad yw rhai disgyblion yn gwneud trosiant, rydym yn adrodd y flwyddyn pan fydd y mwyafrif (>50%) o ddisgyblion a ddechreuodd ar lefel un yn y dosbarth Derbyn wedi trosi i'r lefel nesaf. Rydym hefyd yn adrodd, ar gyfer y disgyblion a wnaeth drosi ar ryw adeg yn ystod ysgol gynradd, cyfartaledd (cymedrig) y blynyddoedd a gymerodd i wneud y trosiant. I bwysleisio gradd yr amrywioldeb yn yr amserau hyn rhwng disgyblion, rydym hefyd yn adrodd ar y gwyrriad safonol (SD).

Mae hyn yn ein galluogi i gyfrifo amrediad o isafswm o 1SD islaw'r cymedrig, i uchafbwynt o 1SD uwchlaw'r cymedrig, a fydd yn cynnwys dwy draean o'r gwerthoedd a arsylwyd. Er enghraifft, mae amser cymedrig i drosi o 3.0 blynedd (SD=1.5) yn dynodi mai cyfartaledd yr amser i drosi ar gyfer y rhai a wnaeth drosi oedd 3.0 blynedd ond gydag amrediad cyffredinol ar draws disgyblion rhwng 1.5 a 4.5 mlynedd.

6 Yng Nghymru, mae ysgolion Cymunedol yn eiddo i ac wedi eu rhedeg gan yr Awdurdod Lleol, mae ysgolion Gwirfoddol yn cael eu rhedeg gan sefydliadau gwirfoddol (fel arfer yr Eglwys yng Nghymru neu'r Eglwys Gatholig), ac mae ysgolion Sefydledig yn eiddo i'w cyrrff llywodraethol neu gan sefydliad elusenol.

7 Sylwer wrth gyfuno'r categorïau Cymwys a Rhugl yn ddadansodol oherwydd patrymau a arsylwyd yn empeiraidd yn y data, nid ydym yn awgrymu y dylid cyfuno'r categorïau hyn yn ymarferol gan fod y cymwyseddau sy'n gysylltiedig â nhw yn amrywio (gweler Atodiad B). Yn hytrach, mae'r patrymau a arsylwyd yn awgrymu y gall fod angen gwella cymedroli o'r asesiad o hyfedredd Saesneg disgyblion ar y lefelau hyn, gyda gwell diffiniad o gymwyseddau, neu hyfforddiant atodol ar gyfer ymarferwyr i hysbysu barnau dilys. Gellir gweld y canllawiau a phrosesau safoni cyfredol a ddefnyddir yng Nghymru ar https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/e1/eb/6b/26/46e949f294825cb0ce41f1c3/Needsassessmentsurveyguide_4.pdf.

Ar gyfer disgyblion a ddechreuodd Derbyn ar lefel A (Newydd i Saesneg) roedd dros hanner (59%) wedi trosi i lefel B (Caffael Cynnar) erbyn Bl2, gan gymryd 2.4 mlynedd ar gyfartaledd (SD=1.4), roedd dros hanner (51%) wedi trosi i lefel C (Datblygu Cymhwyster) erbyn Bl4, gan gymryd 3.7 mlynedd ar gyfartaledd (SD=1.6), ond dim ond traean (31%) oedd wedi trosi i lefel D (Cymwys) erbyn diwedd Bl6, gan gymwys ar gyfartaledd 4.6 mlynedd ar gyfer y rhai a wnaeth y trosiant hwn yn yr ysgol gynradd.

Ar gyfer disgyblion a ddechreuodd Derbyn ar lefel B (Caffael Cynnar) roedd dros hanner (58%) yn trosi i lefel C (Datblygu Cymhwyster) erbyn Bl3, gan gymryd 2.9 mlynedd ar gyfartaledd (SD=1.6), ac roedd dros hanner (52%) wedi trosi i lefel D (Cymwys) erbyn Bl6, gan gymryd 4.3 mlynedd ar gyfartaledd (SD=1.7).

Ar gyfer disgyblion a ddechreuodd Derbyn ar lefel C (Datblygu Cymhwyster) roedd bron i hanner (48%) wedi trosi i lefel D (Cymwys) erbyn Bl5, gan gymwys 3.7 mlynedd ar gyfartaledd (SD=2.0), ar gyfer y rhai a wnaeth y trosiant. Roedd bron i ddwy draean (68%) wedi trosi i Gymwys erbyn Bl6.

I grynhoi, ar gyfer y disgyblion a ddechreuodd fel lefel A (Newydd i Saesneg) yn Derbyn, rydym yn canfod erbyn diwedd Bl6, roedd bron i'r cyfan (96%) wedi trosi i B (Caffael Cynnar), a bron i dri chwarter (78%) wedi trosi i C (Datblygu Cymhwyster) ond mai dim ond tua thraean (31%) wedi trosi i D/E (Cymwys neu uwch). Mae gan y ffaith bod dwy draean o ddisgyblion, hyd yn oed chwe blynedd wedi dechrau'r ysgol, heb drosi i Gymwys yn cael goblygiadau arwyddocaol ar gyfer y fformiwla ariannu disgyblion cenedlaethol yn Lloegr, sydd ar hyn o bryd ddim ond yn darparu cyllid wedi'i dargedu i ddisgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol am gyfnod o dair blynedd wedi iddynt ymuno â'r ysgol.

Amser i gynnydd yn dechrau mewn gwahanol grwpiau blwyddyn

Yn gyffredinol, mae'r amserau i drosi yn debyg i'r disgyblion hynny yn cychwyn ar lefel A (Newydd i Saesneg) p'un a wnaethant ymuno gyda'r ysgol yn Derbyn neu mewn grŵp blynyddoedd diweddarach. Roedd disgyblion a ddechreuodd ym M15 ychydig yn fwy tebygol o fynd heibio lefelau hyfedredd (e.e. i fod yn Newydd i Saesneg un flwyddyn ac yna'n Datblygu Cymhwyster y nesaf) na'r rhai'n dechrau mewn grwpiau blynyddoedd cynharach, ond ar wahân i hynny, doedd yna ddim gwahaniaeth mawr. Mae hyn yn golygu y gallwn gyffredinoli ein casgliad ar amserau trosiant o'r cohort Derbyn i ddisgyblion yn dechrau mewn grwpiau blynyddoedd diweddarach. Gallai disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol sy'n cyrraedd yr ysgol mewn grwpiau blynyddoedd diweddarach fod yn fwy tebygol o gael lefelau is o PIE ac i gael lefelau is o gyrhaeddiad r ddiwedd y profion Cyfnod Allweddol (e.e. DfE, 2019) ond ar gyfartaledd dylid disgwyl iddynt wneud yr un cynnydd o ran dysgu Saesneg, ac ar yr un gyfradd, â disgyblion yn ymuno yn Derbyn.

Amser i gynnydd a nodweddion disgyblion

Gan fwyaf, nid oedd demograffeg disgyblion yn ymddangos i fod yn gysylltiedig ag amser i gynnydd PIE. Dau eithriad nodedig oedd (i) fod disgyblion Pacistanaidd yn cymryd mwy o amser i gynyddu i Gaffael Cynnar ac i Ddatblygu Cymhwyster na'r rhan fwyaf o'r grwpiau ethnig eraill, a (ii) bod disgyblion gydag AAA yn trosi ychydig yn gynt o Newydd i Saesneg i Gaffael Cynnar, a allai fod o ganlyniad i'r gefnogaeth atodol a ddarperir i ddisgyblion gydag AAA.

Amser i gynnydd a chyflawniad disgyblion

Roedd disgyblion oedd yn symud yn gynt o lefel A (Newydd i Saesneg) i Gaffael Cynnar a Datblygu Cymhwyster yn dueddol o fod â lefel uwch o berfformiad Saesneg CA2. Mae hyn yn dystiolaeth dda ar gyfer dilysrwydd y mesur amser i gynnydd, gan y byddem yn disgwyl i ddisgyblion sy'n caffael Hyfedredd mewn Saesneg yn gynt i gael lefelau uwch o gyrhaeddiad. Rydym hefyd yn nodi fod disgyblion oedd yn gwneud pob trosiant o fewn yr ysgol gynradd yn dueddol o fod â chyflawniad uwch mewn Saesneg ar CA2 na disgyblion nad oeddynt yn cyflawni'r un trosiant.

Amrywiaethau ysgolion ac ALL o ran amser cynnydd

Roedd cryn amrywiaeth rhwng ysgolion ac Awdurdodau Lleol mewn amserau trosi. Roedd amser i gynydd rhwng lefelau PIE yn gysylltiedig gyda rhai mesurau o gyfansoddiad a chyd-destun ysgol.

Cymerodd disgyblion mewn ysgolion mwy, ysgolion gyda chanrannau uwch o ddisgyblion gyda Saesneg fel laith Ychwanegol ac ysgolion gyda chanrannau uwch o ddisgyblion ar lefelau PIE A-C fwy o amser i gynyddu, ar gyfartaledd, nag ysgolion gyda niferoedd isel o'r mesurau hyn. Roedd hyn yn annisgwyl gan ein bod yn meddwl y byddai gan ysgolion gyda phoblogaethau Saesneg fel laith Ychwanegol mwy arbenigedd ac adnoddau helaethach i hwyluso cynnydd o ran Hyfedredd mewn Saesneg. Efallai bod gwahaniaethau demograffig eraill rhwng yr ysgolion hyn sy'n cyfrif am yr amrywiaethau, ac efallai y bydd angen archwilio'r canlyniadau ymhellach mewn nifer o fodolau atchwel. Nid oedd disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn wahanol iawn i'r rhai mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg o ran amser i drosi, ond fe gymeron nhw fwy o amser i gynyddu rhwng lefelau PIE na'r rhai mewn ysgolion cymysg (dwyeithog, dwy ffrwd neu drosiannol). Fodd bynnag, roedd llai na 50 o ddisgyblion Saesneg fel laith Ychwanegol mewn ysgolion cyfrwng Cymysg felly nid yw'r canlyniadau'n ddibynadwy iawn. Doedd yna ddim patrymau arwyddocaol mewn amser i gynydd yn ôl y math o ysgol (Cymuned/Sefydledig/Gwirfoddol).

Casgliadau

Mae'r casgliad fod dros dri chwarter (78%) disgyblion sy'n dechrau derbyn fel Newydd i Saesneg yn symud ymlaen i Ddatblygu Cymhwyster erbyn diwedd yr ysgol gynradd yn addawol, o ran bod mwyafrif y disgyblion hyn yn debygol o gael mynediad at y cwricwlwm Saesneg yn yr ysgol uwchradd.

Fodd bynnag, mae'r ffaith mai dim ond traean (31%), hyd yn oed chwe blynedd wedi dechrau'r ysgol, oedd wedi trosi i D (Cymwys) neu uwch, yn peri pryder; mae hyn yn awgrymu tra bod gan nifer o ddisgyblion gymhwyster sy'n Datblygu, cymharol ychydig sy'n sicrhau hyfedredd ieithyddol academiaidd yn y cyfnod amser hwn. **Ar hyn o bryd mae fformiwlâ ariannu disgyblion ar gyfer Lloegr yn cynnig cyllid atodol am dair blynedd wedi i ddisgybl gyrraedd yr ysgol, naill ai Derbyn neu os o dramor mewn grŵp blwyddyn diweddarach. O ystyried nad yw'r mwyafrif o ddisgyblion yn yr astudiaeth genedlaethol hon wedi trosi i Gymwys mewn chwe blynedd, fe ymddengys fod hyd y gefnogaeth ariannol yn Lloegr yn llai na digonol.**

Nid oedd y grŵp blwyddyn pan ymunodd disgybl ar lefel A (Newydd i Saesneg) yr ysgol yn ymddangos i fod yn ddylanwad cryf o ran amser i gynydd i lefelau PIE uwch. Gallai disgyblion Saesneg fel laith Ychwanegol sy'n cyrraedd yr ysgol mewn grwpiau blynyddoedd diweddarach fod yn fwy tebygol o gael lefelau is o PIE ac i gael lefelau is o gyrhaeddiad ar ddiwedd y profion Cyfnod Allweddol (e.e. DfE, 2019) ond ar gyfartaledd - pan fydd ffactorau eraill na fesurir, fel lefel llythrennedd iaith y cartref, yn gyfatebol - dylid disgwyl eu bod yn gweld yr un lefel o gynydd o ran dysgu Saesneg â disgyblion yn ymuno yn Derbyn.

Fe ymddengys fod cyswllt cryf rhwng yr amser i symud i lefelau uwch PIE a chyflawniad mewn Saesneg ar ddiwedd CA2. Mae hyn yn gasgliad pwysig, gan ei fod yn cynnig tystiolaeth o ddilysrwydd y mesur amser i gynydd. Hefyd, fe wyddom o gasgliadau trawstoriadol fod bylchau cyrraedd rhwng disgyblion sy'n siarad Cymraeg/Saesneg a disgyblion yn datblygu Hyfedredd mewn Saesneg (lefelau PIE A-C) yn fwy yn ystod Camau Allweddol hwyrach. Gallai'r rhai sy'n cychwyn gyda'r lefelau isaf o hyfedredd ei chael yn anodd cael mynediad i'r cwricwlwm a bod dan anfantais gynyddol os byddant yn sicrhau cynnydd araf wrth ddatblygu eu Hyfedredd mewn Saesneg.

Mae hefyd yn arwyddocaol, er gwaethaf yr amrywiad yn y gyfradd o wahanol grwpiau ethnig gyda Saesneg fel laith Ychwanegol ac ar lefelau gwahanol o PIE, nad oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn yr amser i gynydd ar wahân i'r grŵp Pacistaidd, a gymerodd fwy o amser ar gyfartaledd na'r rhan fwyaf o grwpiau eraill i gynyddu trwy'r lefelau isaf o hyfedredd wrth ddechrau o Newydd i Saesneg yn Derbyn. Mae angen ymchwiliad pellach i ddeall pam y gall hyn ddigwydd.

Ni allwn briodoli cysylltiadau arwyddocaol i brosesau sy'n digwydd mewn Awdurdodau Lleol ac ysgolion, gan nad oes gennym wybodaeth ar y prosesau hyn. Fodd bynnag, mae ein casgliadau'n awgrymu y bydd yn bwysig i ymchwilio ymhellach i beth allai fod yn cyfrannu at amrywiad ysgolion ac Awdurdodau Lleol, ac i gysylltiadau gyda chyfansoddiad neu gyd-destun ysgolion.



The Bell Foundation

Hillscross
Red Cross
Lane
Caergrawnt
CB2 0QU

www.bell-foundation.org.uk